Swansea University
Prifysgol Abertawe

Amodau a Thelerau Prifysgol Abertawe

Mae'r Amodau a Thelerau hyn yn gymwys i ddarparu gwasanaethau academaidd a gwasanaethau perthynol i chi gan y Brifysgol mewn cysylltiad â'ch lle ar raglen astudio. Mae'r Amodau a Thelerau hyn yn rhan o gontract rhyngoch chi a'r Brifysgol, ac maent hefyd yn cynnwys dogfennau y cyfeirir atynt yn yr Amodau a Thelerau hyn. Gallwch ymrwymo i gontractau ychwanegol gyda'r Brifysgol am wasanaethau eraill, megis llety, aelodaeth o'r gampfa neu wasanaethau arlwyo, ond caiff y rhain eu rheoli gan amodau a thelerau ar wahân.

Mae'r Amodau a Thelerau hyn yn darparu gwybodaeth bwysig am hawliau a chyfrifoldebau'r Brifysgol a'ch rhai chi yn unol â'r contract. Gwnewch yn siŵr eich bod yn darllen yr Amodau a Thelerau hyn yn ofalus cyn i chi dderbyn ein cynnig. Os oes gennych gwestiynau am yr Amodau a Thelerau hyn neu os oes angen rhagor o fanylion arnoch, cysylltwch â'r Brifysgol drwy e-bostio astudio@abertawe.ac.uk.

Bydd y contract rhyngoch chi a'r Brifysgol yn cael ei greu pan fyddwch yn derbyn ein cynnig.

Er y dylech ddarllen yr Amodau a Thelerau hyn yn eu cyfanrwydd, hoffai'r Brifysgol dynnu eich sylw at baragraffau 3, 5, 25, 26, 27, 30, a 31 yn benodol gan eu bod yn cynnwys gwybodaeth bwysig am ein hawliau i newid y Rhaglen a/neu'r Amodau a Thelerau a dogfennau eraill, eich cyfrifoldeb chi am Ffioedd, ein hatebolrwydd ni a'n hawliau i derfynu'r contract gyda chi.

1. Gwybodaeth bwysig amdanom ni

1.1. Mae'r amodau a thelerau hyn ("**Amodau a Thelerau")** yn berthnasol i chi os ydych chi wedi derbyn cynnig gan Brifysgol Abertawe (y **"Brifysgol"**) sy'n nodi manylion ac amodau eich derbyn i un o raglenni'r Brifysgol, yn dechrau yn 2021 neu wedi'i gohirio tan 2022.

1.2. Mae'r Amodau a Thelerau hyn yn manylu ar y berthynas rhwng y Brifysgol ("ni", "ein") a chi.

1.3. Mae'r Brifysgol yn gorfforaeth annibynnol a chanddi statws elusennol a sefydlwyd gan Siarter Frenhinol. Ei rhif cofrestredig yw RC000639 ac mae ei swyddfa gofrestredig ym Marc Singleton, Abertawe SA2 8PP.

2. Derbyn eich Cynnig

2.1. Byddwn yn anfon llythyr cynnig atoch chi sy'n manylu ar ein cynnig o le ar raglen astudio gyda ni. **Lle y bo'n berthnasol,** bydd y llythyr cynnig yn eich cyfeirio at wefan UCAS sydd hefyd yn cynnwys gwybodaeth bwysig am ein cynnig i chi. Gyda'i gilydd, mae'r llythyr cynnig a'r wybodaeth ar wefan UCAS yn cynrychioli ein **"Cynnig"** i chi.

Bydd y Cynnig yn rhoi gwybodaeth bwysig am:

2.1.1. y rhaglen rydych wedi dewis ei hastudio, gan gynnwys gwybodaeth berthnasol sy'n ymwneud â darparu'r rhaglen (y **"Rhaglen"**);

2.1.2. manylion am y ffioedd dysgu y disgwylir i chi eu talu drwy gydol y rhaglen (y **"Ffioedd"**);

2.1.3. hyd y Rhaglen (gan gynnwys y dyddiad dechrau);

2.1.4. manylion am ble a sut caiff y rhaglen ei darparu;

2.1.5. manylion am amodau a allai fod yn gysylltiedig â'r Cynnig;

2.1.6. manylion am y gwasanaethau academaidd a bugeiliol y bydd y Brifysgol yn eu darparu i chi yn ystod y Rhaglen;

2.1.7. gwybodaeth arall mewn perthynas â'r Rhaglen a'ch astudiaethau gyda'r Brifysgol.

2.2. Gallwch dderbyn eich Cynnig drwy ddilyn y camau a nodir yn eich Cynnig. Rhaid i chi wneud hyn erbyn y dyddiad y bydd UCAS yn ei roi i chi neu, os nad ydych chi'n cyflwyno cais drwy UCAS, erbyn y dyddiad a nodir yn eich Cynnig.

2.3. Os penderfynwch dderbyn y Cynnig, bydd contract yn cael ei greu rhyngoch chi a'r Brifysgol wrth i chi dderbyn y cynnig ac wrth i chi gydymffurfio ag unrhyw amodau a nodir yn y Cynnig. Tybir eich bod wedi derbyn y cynnig pan fyddwch yn defnyddio'r system ymgeisio ar-lein briodol i dderbyn y Cynnig, h.y. y System Ymgeisio neu system UCAS neu, os nad yw'r Cynnig wedi'i wneud drwy ein system ymgeisio ar-lein neu drwy UCAS, drwy gadarnhad ysgrifenedig eich bod yn derbyn y Cynnig.

2.4. Mae eich hawliau a'ch rhwymedigaethau i'r Brifysgol, a hawliau a rhwymedigaethau'r Brifysgol i chi sy'n deillio o'r contract hwnnw, wedi'u nodi yn y dogfennau a restrir isod, sy'n ffurfio amodau a thelerau eich contract myfyriwr. Dylech chi, felly, ddarllen y ddogfen hon (a'r dogfennau a restrir isod) yn ofalus, ac ymgyfarwyddo'n llawn â'i chynnwys (ynghyd â chynnwys y dogfennau, y rheoliadau, y polisïau a'r gweithdrefnau y mae'n cyfeirio atynt) cyn derbyn eich cynnig.

- Yr Amodau a Thelerau hyn ac unrhyw ddogfennau y cyfeirir atynt yn yr Amodau a Thelerau hyn
- Eich Llythyr Cynnig
- Rheoliadau a Chanllaw Academaidd y Brifysgol, sydd ar gael yn

  https://myuni.swansea.ac.uk/academic-life/academic-regulations/
- Manylebau'r rhaglenni, sydd i'w gweld ar gyfer pob rhaglen israddedig yn: http://www.swansea.ac.uk/cy/israddedig/cyrsiau/ ac ar gyfer pob rhaglen ôl-raddedig a addysgir yn http://www.swansea.ac.uk/cy/ol-raddedig/addysgir/
- Adfer ar ôl y Coronafeirws: Arweiniad ar gyfer Prifysgol Abertawe - https://www.swansea.ac.uk/about-us/coronavirus/ - ein prif gyfrwng ar gyfer darparu'r wybodaeth ddiweddaraf am newidiadau o ganlyniad i effaith pandemig y coronafeirws ar y Brifysgol a'n cynlluniau adfer.

3. Newidiadau yn eich rhaglen astudio a/neu'r Amodau a Thelerau hyn

3.1. Mae eich Cynnig o le i astudio yn y Brifysgol yn seiliedig ar y canlynol:

3.1.1. yr wybodaeth allweddol ddiweddaraf, sydd ar gael ar y dudalen berthnasol yn adran Rhaglenni ein gwefan (ar y dyddiad pan fyddwch yn derbyn eich cynnig). Mae hyn yn cynnwys modiwlau craidd y Rhaglen, a gall gynnwys enghreifftiau o'r modiwlau dewisol sy'n debygol o gael eu cynnig; a'r

3.1.2. fersiwn gyfredol o Ganllaw Academaidd y Brifysgol - https://myuni.swansea.ac.uk/academic-life/academic-regulations/

3.2. Bydd y Brifysgol yn gwneud ymdrechion rhesymol i ddarparu eich Rhaglen yn unol â manyleb y Rhaglen ac yn unol â'r disgrifiad yn y prosbectws argraffedig neu ar-lein perthnasol am y flwyddyn academaidd.

3.3. Bydd y Brifysgol yn ymdrechu bob amser i wneud cyn lleied â phosib o newidiadau i Raglenni. Fodd bynnag, mae'n bosib y bydd angen newidiadau i wybodaeth am y Rhaglen a dull ei darparu (gan gynnwys disgrifiad, cynnwys, dull a/neu leoliad darparu'r Rhaglen a/neu ei hamserlen a'r broses arholi), gwasanaethau, cyfleusterau a/neu Siarter Frenhinol, Statudau, Ordinhadau, Rheoliadau a Chanllaw Academaidd y Brifysgol cyn dyddiad dechrau eich Rhaglen a/neu yn ystod eich astudiaethau. Mae'r rhesymau dros newidiadau yn cynnwys y canlynol ond nid ydynt yn gyfyngedig iddynt:

3.3.1. i fodloni gofynion corff achredu, proffesiynol, statudol a/neu reoleiddio;
3.3.2. i fodloni gofynion y gyfraith, polisi'r llywodraeth, arweiniad neu benderfyniadau llys cymwys neu gorff tebyg arall;
3.3.3. i ymateb i arfer da neu brosesau gwella ansawdd yn y sector;
3.3.4. i gadw Rhaglenni'n gyfoes drwy ddiweddaru arferion neu feysydd astudio;
3.3.5. oherwydd amgylchiadau y tu hwnt i reolaeth resymol y Brifysgol e.e. os bydd aelod staff allweddol yn gadael y Brifysgol neu'n methu addysgu (lle mae'r rhaglen neu'r modiwl yn dibynnu ar arbenigedd y person hwnnw);
3.3.6. gwelliannau i Ystadau a Chyfleusterau'r Brifysgol a chynlluniau i adleoli Ysgolion/Colegau neu Adrannau;
3.3.7. amgylchiadau eraill y tu allan i reolaeth resymol y Brifysgol gan gynnwys (ond heb fod yn gyfyngedig i'r rhain): gweithredu diwydiannol, tywydd garw iawn, trychineb naturiol, tân, anhrefn sifil, anhrefn wleidyddol, cyfyngiadau gan y llywodraeth a/neu awdurdod cyhoeddus neu bryder difrifol am drosglwyddo clefyd difrifol sy'n golygu ei bod hi'n anniogel darparu rhaglen a chlefydau epidemig neu bandemig (gan gynnwys pandemig COVID-19).

3.4. Yn ogystal, gall fod angen newid Rhaglenni neu fodiwlau lle nad yw'r nifer isaf o fyfyrwyr i sicrhau profiad da i fyfyrwyr neu brofiad addysgol da wedi cofrestru. Sylwer y gellir tynnu rhaglenni'n ôl mewn amgylchiadau eithriadol (cyn iddynt ddechrau) am y rheswm hwn.

3.5. O bryd i'w gilydd gall fod angen i ni wneud mân newidiadau i'r Rhaglen neu i'r Amodau a Thelerau hyn (gan gynnwys y dogfennau y cyfeirir atynt yn yr Amodau a Thelerau hyn). Dyma rai enghreifftiau o fân newidiadau (ond nid yw'n rhestr gyflawn): newidiadau rhesymol i amserlen y Rhaglen; nifer y dosbarthiadau/darlithoedd neu weithgareddau addysgu eraill; sut mae gwasanaethau TG, llyfrgell neu wasanaethau eraill yn cael eu darparu i chi; dulliau addysgu neu asesu'r Rhaglen; cynnwys, modiwlau neu faes llafur y Rhaglen; lleoliad addysgu'r Rhaglen; newidiadau gweithdrefnol; newidiadau i reoliadau, codau ymarfer, polisïau a gweithdrefnau.

3.6. Lle nad yw'r newidiadau'n rhai sylweddol, byddwn yn cymryd camau rhesymol i roi gwybod i chi amdanynt (yn ysgrifenedig neu drwy e-bost fel arfer, ond gall hyn gynnwys diweddaru dogfennau a/neu ddeunydd y Rhaglen a darparu'r dogfennau hynny ar wefan y Brifysgol a/neu eu cyhoeddi drwy gyfryngau eraill i sicrhau eich bod yn ymwybodol o'r newidiadau hynny), a byddwn yn rhoi i chi'r rhybudd y credwn ei fod yn briodol yn yr amgylchiadau. Lle bynnag y bo modd, byddwn yn rhoi gwybod i chi ymlaen llaw, ond mae'n bosib na fydd modd gwneud hyn ym mhob sefyllfa. Bydd y Brifysgol yn ceisio sicrhau bod hyn yn amharu cyn lleied â phosib arnoch hefyd.

3.7. Mewn amgylchiadau eithriadol, mae'n bosib y bydd angen i ni wneud newidiadau sylweddol i'r rhaglen a/neu i'r Amodau a Thelerau hyn (gan gynnwys y dogfennau y cyfeirir atynt yn yr Amodau a Thelerau hyn) - dyma newidiadau nad ydynt yn fân newidiadau ond rhai sy'n newid y Rhaglen a/neu'r Amodau a Thelerau hyn yn sylweddol. Dyma enghreifftiau o newidiadau sylweddol (ond nid yw'r rhestr yn gyflawn): newidiadau sylweddol i'n dulliau addysgu, darparu neu asesu Rhaglen (er enghraifft, newid sylweddol yn y cydbwysedd rhwng gwaith cwrs ac arholiadau fel dulliau asesu ar draws Rhaglen); newidiadau yn nheitl eich dyfarniad neu'ch Rhaglen; newidiadau sylweddol yn lleoliad cyfleusterau addysgu eich Rhaglen (megis symud y Rhaglen i leoliad hollol wahanol nad yw o fewn pellter rhesymol i leoliad gwreiddiol darparu'r Rhaglen) neu benderfyniad i gyfuno rhaglenni neu ailstrwythuro Rhaglen yn sylweddol.

3.8. Lle mae'r newidiadau'n sylweddol (hynny yw, maent yn newid natur y Rhaglen neu'r Amodau a Thelerau hyn), bydd y Brifysgol yn ymgynghori â chi cyn gwneud y newid. Cynhelir ymarferion ymgynghori o'r fath naill ai drwy'r Pwyllgor Ymgynghori Staff a Myfyrwyr neu drwy e-bostio'r myfyrwyr unigol y bydd y newidiadau'n effeithio arnynt a'u gwahodd i anfon ymatebion at eu Cynrychiolwyr Myfyrwyr ar gyfer trafodaeth ar y cyd yn y Pwyllgor Ymgynghori Staff a Myfyrwyr.

3.9. Os nad ydych yn cysylltu â ni o fewn cyfnod rhesymol o gael eich hysbysu (ac ym mhob achos o fewn 14 diwrnod i gael eich hysbysu) i ddweud nad ydych yn cytuno â'r newid sylweddol rydym yn cynnig ei wneud, byddwn yn tybio eich bod yn fodlon parhau i astudio ar eich Rhaglen ar ôl i ni wneud y newid dan sylw.

3.10. Os nad ydych yn cytuno â newid sylweddol rydym yn penderfynu ei wneud i'r Rhaglen neu i'r Amodau a Thelerau hyn, ac rydych wedi ein hysbysu cyn i ni wneud y newid hwnnw nad ydych yn cytuno â'r newid sylweddol, cewch derfynu'r contract hwn ac mae'n bosib y bydd gennych hawl i ad-daliad priodol o'r Ffioedd rydych wedi'u talu i'r Brifysgol am wasanaethau nad ydych wedi'u derbyn. Byddwn hefyd yn ymdrechu i gynnig lle i chi ar Raglen arall yn y Brifysgol fel y bo'n briodol.

3.11. Fel arfer, bydd newidiadau (boed yn fân newidiadau neu'n rhai sylweddol) yn dod i rym ar ddechrau'r flwyddyn academaidd nesaf, ond gellir cyflwyno rhai newidiadau yn ystod y flwyddyn academaidd gyfredol ar y pryd neu ar unwaith lle mae'r Brifysgol o'r farn resymol bod hyn er lles gorau myfyrwyr, lle mae'n ofynnol yn ôl y gyfraith neu oherwydd amgylchiadau eithriadol eraill.

3.12. Ar adegau hefyd, gall fod angen i ni dynnu'r Rhaglen yn ôl neu ei chyfuno â Rhaglenni eraill. Os caiff eich rhaglen ei thynnu'n ôl neu ei chyfuno â Rhaglenni eraill, neu os gwneir newidiadau sylweddol iddi ar ôl i chi dderbyn eich cynnig, bydd y Brifysgol yn cymryd camau rhesymol i roi gwybod i chi'n gynnar bod y rhaglen wedi cael ei thynnu'n ôl neu ei newid, ac i leihau'r effaith drwy gynnig rhaglen arall addas (os oes un ar gael ac os ydych yn bodloni gofynion mynediad y Rhaglen), neu bydd yn eich helpu i ddod o hyd i Raglen neu brifysgol arall. Yn ogystal, bydd gennych hawl i dynnu'n ôl o'ch Rhaglen ac i gyflwyno cais am ad-daliad, neu ad-daliad rhannol o unrhyw Ffioedd rydych wedi'u talu.

3.13. Hefyd, bydd gan y Brifysgol hawl i newid y Ffioedd yn unol â pharagraff 5.2.

4. Statws Ffioedd

4.1. Bydd y Brifysgol yn asesu eich statws ffioedd ar sail yr wybodaeth a ddarparwyd gennych yn eich cais, neu gyda'ch cais, gan gyfeirio at *Reoliadau Addysg (Ffioedd Myfyrwyr, Dyfarniadau, a Chyrsiau a Phersonau Cymhwysol) (Cymru) 2013* yn unol â'i Pholisi Asesu Ffioedd.

4.2. Os nad yw eich statws ffioedd yn amlwg o'r wybodaeth a ddarparwyd gennych gyda'ch cais, byddwn yn gofyn i chi ddarparu rhagor o wybodaeth fel y gallwn gadarnhau eich statws ffioedd. Yn y cyfamser, bydd eich cynnig yn dyfynnu cyfradd is "y DU" a'r gyfradd ffioedd "Rhyngwladol" uwch nes bod eich statws ffioedd yn cael ei gadarnhau.

4.3. Os ydych yn anghytuno ag asesiad y Brifysgol o'ch statws ffioedd, mae gennych yr hawl i ofyn i'r Brifysgol gynnal ail asesiad yn unol â'r Polisi Asesu Ffioedd. Os byddwch yn anghytuno â'r ail asesiad, gallwch apelio'r penderfyniad hwnnw yn unol â'r Polisi Asesu Ffioedd.

5. Ffioedd a Thaliadau

5.1. Bydd y Ffioedd a nodir yn eich cynnig yn berthnasol ar gyfer blwyddyn gyntaf eich rhaglen yn unig.

5.2. Bydd ffioedd myfyrwyr ôl-raddedig a myfyrwyr Rhyngwladol yn cynyddu 3% bob blwyddyn. Gall ffioedd myfyrwyr israddedig amser llawn o'r DU gynyddu yn y blynyddoedd astudio dilynol ar sail chwyddiant, yn unol â phenderfyniad Llywodraeth Cymru. Er enghraifft, os ydych yn talu ffioedd o £9,000 ym mlwyddyn un ac mae Llywodraeth Cymru yn pennu cynnydd ar sail chwyddiant o 3% bob blwyddyn, bydd y Brifysgol yn cynyddu eich ffi i £9,270 am flwyddyn 2 ac i £9,548 am flwyddyn 3. Byddwn yn cadarnhau unrhyw gynnydd o'r fath i chi bob blwyddyn, a chyn gynted â phosib yn dilyn cadarnhad gan Lywodraeth Cymru.

5.3. Mae'n bosib y codir ffi ar ben eich ffioedd dysgu i dalu costau cyfarpar arbenigol neu gostau labordy angenrheidiol ar gyfer rhaglenni ymchwil. Os codir ffioedd mainc, caiff y swm ei bennu gan eich goruchwyliwr a'i gynnwys yn eich Cynnig.

5.4. Drwy dderbyn y Cynnig, rydych chi'n cytuno i dalu'r holl Ffioedd pan fyddant yn ddyledus (gan gynnwys unrhyw gostau a threuliau ychwanegol megis ffioedd ailsefyll). Eich cyfrifoldeb chi yw sicrhau y caiff eich ffioedd a'r holl dreuliau sy'n ymwneud â'ch rhaglen eu talu'n llawn ac yn brydlon. Mae gofynion y Brifysgol o ran talu ffioedd ar gael ar-lein.

5.5. Gall Israddedigion o'r DU weld gwybodaeth am ffioedd, gan gynnwys manylion am sut i drefnu talu eich Ffioedd yn: https://www.swansea.ac.uk/finance-swansea-university/paying-tuition-fees-and-other-information/how-to-pay-your-fees-uk-eu-undergraduate/; Mae gwybodaeth i Ôl-raddedigion o'r DU yma: https://www.swansea.ac.uk/finance-swansea-university/paying-tuition-fees-and-other-information/pay-fees-uk-eu-postgraduate/; ac i fyfyrwyr o'r UE/Rhyngwladol yma: https://www.swansea.ac.uk/finance-swansea-university/paying-tuition-fees-and-other-information/pay-fees-international-students/

5.6. Os byddwch yn talu'ch ffioedd dysgu eich hun, rhaid i chi naill ai dalu'r swm llawn ar ddechrau'r flwyddyn academaidd neu gyflwyno cais am dalu mewn rhandaliadau yn unol â chymal 4.2 uchod. Os ydych yn fyfyriwr a noddir, eich cyfrifoldeb chi yn unig o hyd yw sicrhau y caiff yr holl ffioedd eu talu'n llawn a bod eich noddwr yn talu unrhyw ddyled heb ei chlirio mewn perthynas â'ch ffioedd i'r Brifysgol yn brydlon. Os na fydd eich noddwr yn talu'r Ffioedd i ni pan fyddant yn ddyledus, chi fydd yn gyfrifol am dalu'r ffioedd dyledus.

5.7. Oni nodir yn wahanol yn eich llythyr cynnig, nid yw'r ffi ddysgu a ddyfynnir yn eich llythyr cynnig yn cynnwys unrhyw daliadau am lety preswyl, ail-wneud cyfnodau astudio, estyn y cyfnod astudio dynodedig, ffioedd ailgyflwyno, costau teithio neu unrhyw gostau amrywiol eraill a all fod yn gysylltiedig â'ch rhaglen astudio (e.e. costau teithiau maes, llyfrau ac offer).

Gellir gweld manylion y costau amrywiol rydych yn debygol o'u hwynebu ar eich rhaglen ar ein gwefan ar gyfer rhaglenni israddedig: www.swansea.ac.uk/cy/israddedig/cyrsiau ac ar gyfer rhaglenni ôl-raddedig a addysgir yn http://www.swansea.ac.uk/cy/ol-raddedig/addysgir/

5.8. Os oes gennych gwestiynau am Ffioedd, neu os oes angen rhagor o fanylion am dalu eich Ffioedd arnoch, dylech gysylltu â'r Tîm Cyllid ym Mhrifysgol Abertawe. Os oes gennych anawsterau talu eich Ffioedd, dylech gysylltu â thîm Arian@BywydCampws yn yr Adran Gwasanaethau Myfyrwyr a all helpu efallai gyda Chronfeydd Caledi a chyngor.

6. Methu Talu Ffioedd

6.1. Os nad ydych yn talu eich Ffioedd yn llawn neu'n brydlon, gall y Brifysgol roi cosbau a nodir yn y Canllaw Academaidd a/neu'r Polisi ar Ddyled Myfyrwyr (sy'n cynnwys yr hawl i'ch diarddel o'r Rhaglen a therfynu'r contract hwn gyda chi os ydych yn methu'n fynych â thalu'r Ffioedd yn brydlon. O ganlyniad, mae'n bosib na chewch symud ymlaen i gam nesaf eich rhaglen neu gellir gofyn i chi adael y Brifysgol. Os byddwch wedi cwblhau eich rhaglen, mae'n bosib na chaniateir i chi raddio a/neu dderbyn eich tystysgrif gradd neu ddatganiad academaidd tan i chi dalu'r ffioedd sy'n ddyledus. Ar ben hynny, gall y Brifysgol gymryd camau cyfreithiol yn eich erbyn er mwyn adennill ffioedd sydd heb eu talu. Mae rhagor o wybodaeth ar ein tudalennau gwe yn https://www.swansea.ac.uk/finance-swansea-university/paying-tuition-fees-and-other-information/student-debt-policy/

7. Gohirio'ch dyddiad dechrau

7.1. Ystyrir ceisiadau am ohirio mynediad tan y flwyddyn neu'r adeg fynediad ganlynol ar sail unigol. Sylwer na fydd rhai rhaglenni'n caniatáu gohirio mynediad. Dylid cyflwyno cais am ohirio mynediad drwy ysgrifennu at y Swyddfa Dderbyn yn: astudio@abertawe.ac.uk.

7.2. Mae'r ffioedd dysgu a nodir yn eich Cynnig yn seiliedig ar y dyddiad dechrau yn 2021 a nodir yn eich llythyr cynnig a byddant yn berthnasol ar gyfer y flwyddyn astudio honno. Fodd bynnag, os byddwch yn gofyn am ohirio mynediad tan y flwyddyn ganlynol, gall eich ffioedd dysgu fod yn uwch na'r hyn a nodwyd yn eich llythyr cynnig, a dylech gysylltu â'r Swyddfa Dderbyn am ragor o wybodaeth.

7.3. Os ydych yn cyflwyno cais am le ar gyfer y flwyddyn ganlynol o'r dechrau, mae'n bosib na fydd ffioedd y flwyddyn ganlynol ar y pryd, ar gael a bydd eich cynnig yn dyfynnu ffioedd y flwyddyn gyfredol fel canllaw. Mae'r ffioedd ar gyfer y flwyddyn ganlynol yn debygol o gynyddu a byddwch yn cael gwybod am y ffioedd dysgu cywir pan fyddant ar gael.

7.4. O ganlyniad i ohirio'ch mynediad tan y flwyddyn ganlynol, rydych yn derbyn y gall fod angen i'r Brifysgol amrywio gwasanaethau, cyfleusterau, disgrifiad, cynnwys, dull a/neu leoliad cyflwyno a/neu amserlen eich rhaglen. Os digwydd hyn, bydd y Brifysgol yn rhoi gwybod i chi am unrhyw newidiadau perthnasol cyn gynted ag sy'n rhesymol ymarferol a bydd cyfle i chi ganslo eich lle (a'ch contract gyda'r Brifysgol) os ydych yn anfodlon ar y newidiadau i'r rhaglen.

8. Eich hawl statudol i ganslo eich lle

8.1. Ar ôl i chi dderbyn eich Cynnig, bydd gennych hawl i ganslo hyn o fewn 14 diwrnod i dderbyn y Cynnig (y cyfnod **ailfeddwl**) heb roi rheswm yn unol â Rheoliadau Contract Defnyddwyr (Gwybodaeth Canslo a Thaliadau Ychwanegol) 2013.

8.2. Er mwyn arfer eich hawl i ganslo, mae'n rhaid i chi roi gwybod i'r Swyddfa Dderbyn (Parc Singleton, Abertawe, SA2 8PP cyfeiriad e-bost: study@abertawe.ac.uk) am eich penderfyniad i ganslo'r contract hwn drwy wneud datganiad clir (e.e. llythyr drwy'r post neu e-bost). Gallwch ddefnyddio'r ffurflen ganslo safonol yn https://www.swansea.ac.uk/admissions/cancelling-your-acceptance/, ond nid yw hynny'n orfodol. I fodloni'r terfyn amser canslo, mae'n ddigon i chi anfon eich neges ynghylch arfer eich hawl i ganslo cyn i'r cyfnod canslo ddod i ben.

8.3. Os byddwch yn canslo'ch cynnig o fewn y Cyfnod Ailfeddwl, byddwn yn ad-dalu'r holl daliadau a dderbyniwyd gennych yn ddi-oed, a beth bynnag, heb fod yn hwyrach na 14 diwrnod ar ôl y diwrnod pan wnaethoch ein hysbysu am eich penderfyniad i ganslo. Byddwn yn ad-dalu'r ffioedd gan ddefnyddio'r un dull talu a ddefnyddiwyd gennych wrth wneud y taliad gwreiddiol, oni bai eich bod wedi cytuno'n benodol fel arall; a beth bynnag, ni fyddwch yn mynd i gostau o ganlyniad i ad-daliad.

8.4. Os ydych yn gofyn i ni ddechrau darparu gwasanaethau (h.y. rydych yn cyflwyno cais i ni ychydig iawn o amser cyn i'ch Rhaglen ddechrau) yn ystod y Cyfnod Ailfeddwl, byddwch yn talu i ni (a bydd gan y Brifysgol hawl i ddidynnu'r swm hwn) swm teg sy'n gymesur â'r gwasanaeth a ddarparwyd i chi nes i chi ein hysbysu eich bod yn canslo'r contract hwn, o'i gymharu â chost lawn y rhaglen. Bydd y swm hwn yn adlewyrchu'r budd rydych chi wedi'i dderbyn hyd at y dyddiad pan wnaethoch ein hysbysu am eich dymuniad i ganslo.

8.5. Os dymunwch ganslo'r contract ar ôl diwedd y Cyfnod Ailfeddwl, ni fyddwch yn gallu gwneud hynny ond yn ôl yr amodau a nodir ym mharagraff 26.

9. Cofrestru ac Ailgofrestru

9.1. Rhaid i chi gofrestru ac ailgofrestru ar ddechrau pob sesiwn academaidd erbyn y dyddiadau a bennir. Os nad ydych yn gwneud hyn, mae'n bosib na chewch ddechrau eich rhaglen neu symud ymlaen ar eich rhaglen, neu gellir gofyn i chi adael y Brifysgol. Os byddwch yn hwyr yn cofrestru neu'n ailgofrestru, disgwylir i chi gysylltu â'ch Coleg i gael y cynnwys a gollwyd ac ni fydd y Brifysgol yn derbyn unrhyw atebolrwydd am gynnwys rhaglenni neu asesiadau y byddwch yn eu colli.

9.2. Os na fyddwch wedi cofrestru erbyn y dyddiadau a bennwyd gan y Brifysgol, gellir gofyn i chi adael y rhaglen am nad ydych wedi cofrestru. Ni fydd disgwyl i chi dalu ffioedd mewn perthynas â'r rhaglen ar ôl eich dyddiad gadael, ond disgwylir i chi dalu ffioedd hyd at eich dyddiad gadael ac yn cynnwys y dyddiad hwnnw. Ni fydd gennych hawl i ad-daliad ffioedd rydych wedi'u talu am wasanaethau a ddarparwyd hyd at eich dyddiad gadael y rhaglen.

9.3. Os gofynnir i chi adael, cewch neges e-bost i'ch hysbysu bod eich cofnod wedi'i gau ac nad ydych bellach yn gymwys i barhau i astudio, i ddefnyddio cyfleusterau'r Brifysgol nac i aros mewn llety sy'n eiddo i'r Brifysgol yn unol ag Amodau a Thelerau eich cytundeb llety.

9.4. Os oes gennych fisa Haen 4/Llwybr Myfyriwr, bydd y Brifysgol yn rhoi gwybod i'r Swyddfa Gartref nad ydych bellach wedi'ch cofrestru. Os bydd hyn yn digwydd, caiff eich fisa ei chanslo, gan effeithio ar eich hawl i ddod i mewn i'r DU a/neu i aros yn y wlad.

9.5. Os ydych wedi derbyn benthyciad myfyriwr gan lywodraeth y DU, bydd y Brifysgol yn rhoi gwybod i'r Cwmni Benthyciadau Myfyrwyr y gofynnwyd i chi adael.

9.6. Os cewch hysbysiad yn gofyn i chi adael, gallech ailgychwyn o fewn cyfnod rhesymol drwy gyflwyno Ffurflen Cymeradwyo Cofrestriad Hwyr. Am ragor o wybodaeth, ewch i https://myuni.swansea.ac.uk/enrolment/enrolment-timetable/

10. Rhwymedigaethau'r Brifysgol i chi

10.1. Yn ystod cyfnod y contract (fel y nodwyd yn y Cynnig), mae'r Brifysgol yn cytuno i ddarparu gwasanaethau academaidd a gwasanaethau perthynol i chi (gan gynnwys addysgu'r Rhaglen) gan ddefnyddio pob gofal a sgil rhesymol ac yn unol â'r Amodau a Thelerau hyn.

10.2. Bydd y Brifysgol yn cyflawni ei rhwymedigaethau statudol i fyfyrwyr ac yn cydymffurfio â'i hymrwymiadau yn unol â chyfraith defnyddwyr fel a bennir gan yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd. Wrth wneud hyn, bydd y Brifysgol yn gweithio i ddiogelu buddion y myfyriwr wrth ymateb i amgylchiadau megis newidiadau arwyddocaol yn y ffordd y caiff cwrs ei addysgu neu benderfyniad i gau cwrs. Mae gweithdrefnau ar waith gan y Brifysgol i ymateb i'r amgylchiadau hyn a fydd yn lliniaru'r effaith bosib ar fyfyrwyr ac sy'n cydnabod anghenion gwahanol ei chymuned amrywiol o fyfyrwyr.

11. Eich rhwymedigaethau chi

11.1. Drwy gydol cyfnod y contract a/neu eich Rhaglen, rydych chi'n cytuno i:

- 11.1.1. gydymffurfio â'r holl rwymedigaethau a geir yn yr Amodau a Thelerau hyn (gan gynnwys y dogfennau y cyfeirir atynt yn yr Amodau a Thelerau hyn);
- 11.1.2. cydymffurfio â Rheoliadau a Chanllaw Academaidd y Brifysgol
- 11.1.3. talu'r Ffioedd yn unol â pharagraff 5;
- 11.1.4. gweithio'n ddiwyd ac yn effeithlon;
- 11.1.5. cyflwyno pob asesiad a mynychu cyflwyniadau ac arholiadau ffurfiol yn ôl yr angen i gwblhau eich rhaglen;
- 11.1.6. mynychu'r holl ddarlithoedd, seminarau a gweithgareddau addysgu eraill sy'n ofynnol gan y Rhaglen, wedi paratoi'n briodol, a rhoi gwybod i'r darlithydd/tiwtor perthnasol os na allwch fod yn bresennol neu os gallwch fod yn bresennol am ran yn unig o'r gweithgaredd addysgu;
- 11.1.7. peidio â tharfu ar:
  - 11.1.7.1. weithgareddau academaidd unrhyw aelod o'r gymuned academaidd;
  - 11.1.7.2. weinyddiad a gweithrediad cyffredinol y Brifysgol;
- 11.1.8. peidio â dwyn anfri ar y Brifysgol neu fynd i atebolrwydd ar ran y Brifysgol;
- 11.1.9. peidio ag ymgymryd â gweithgarwch troseddol;
- 11.1.10. peidio ag ymgymryd ag unrhyw weithgarwch sy'n groes i bolisi Cydraddoldeb y Brifysgol;
- 11.1.11. peidio â difrodi, difwyno neu gamddefnyddio rhywbeth sy'n eiddo i'r Brifysgol, unrhyw sefydliad arall neu fyfyrwyr yn y Brifysgol neu aelod arall o'r gymuned academaidd neu aelod o staff y Brifysgol; a
- 11.1.12. datgan unrhyw gyfyngiadau cyfreithiol a allai effeithio ar eich astudiaethau chi a/neu beri risg i ddiogelu staff a myfyrwyr y Brifysgol.

12. Cyhuddiadau, rhybuddiadau ac euogfarnau ac ymddygiad troseddol a allai achosi niwed difrifol i enw da'r Brifysgol

12.1. Os yw eich cynnig o le'n amodol ar wiriad boddhaol gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS), bydd rhaid i chi gael a darparu'r wybodaeth hon erbyn y dyddiad a bennir a bydd y Brifysgol yn penderfynu a yw unrhyw euogfarnau neu wybodaeth a ddatgelwyd yn anghydnaws â rhoi lle i chi ar y rhaglen. Os ydynt, neu os nad ydych yn darparu'r wybodaeth ofynnol gan y DBS erbyn y dyddiad a bennwyd, byddwn yn eich hysbysu bod eich cynnig o le wedi'i dynnu'n ôl a chaiff eich contract ei derfynu.

12.2. Os yw gwiriad boddhaol gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) yn ofynnol ar gyfer eich rhaglen, bydd angen i chi gael yr wybodaeth hon a'i darparu cyn i chi gofrestru ac ailgofrestru ar gyfer pob sesiwn academaidd. Bydd y Brifysgol yn penderfynu a fydd unrhyw euogfarnau neu wybodaeth a ddatgelwyd yn anghydnaws â'ch rhaglen. Os ydynt, neu os nad ydych yn

darparu'r wybodaeth ofynnol gan y DBS erbyn y dyddiad a bennwyd, gall y Brifysgol eich atal rhag astudio dros dro neu eich gorfodi i adael y Brifysgol.

12.3. Gofynnir i ymgeiswyr ar gyfer pob Rhaglen arall ddatgelu a oes ganddynt euogfarnau “perthnasol” heb eu disbyddu ar ôl iddynt dderbyn cynnig o le ac fel rhan o'r broses cyflwyno cais am lety. Os yw'r ymgeisydd eisoes wedi cofrestru'n fyfyriwr, gellir ei orfodi i atal ei astudiaethau nes y ceir canlyniad yr asesiad risg hwn. Mae euogfarnau "perthnasol" yn cynnwys y rhai sy'n ymwneud â thrais neu ymddygiad bygythiol, troseddau rhywiol a chyflenwi cyffuriau, yn ogystal â throseddau sy'n ymwneud ag arfau tanio, llosgi bwriadol a therfysgaeth. Gofynnir i ymgeiswyr ddarparu rhagor o wybodaeth a ddefnyddir wrth gynnal asesiad risg mewn perthynas â derbyn ymgeisydd i'r Brifysgol. Os teimlir, o ganlyniad i'r asesiad, fod yr ymgeisydd yn peri risg sylweddol i ddiogelwch myfyrwyr, staff neu ymwelwyr y Brifysgol a/neu gall fod gan yr ymgeisydd botensial i achosi niwed difrifol i enw da'r Brifysgol, gellir tynnu cynnig o le yn ôl. Am ragor o wybodaeth, ewch i: https://www.swansea.ac.uk/media/criminal-convictions-policy-2018-v2.pdf

12.4. Yn ogystal, mae'n ofynnol i bob myfyriwr hysbysu'r Brifysgol yn brydlon am fanylion unrhyw arestiad, cyhuddiad, rhybuddiad a/neu euogfarn a dderbynnir gan y myfyriwr (boed mewn cysylltiad â'r Brifysgol ai peidio), ac am amodau mechnïaeth a orfodir arno rhwng y dyddiad pan dderbynnir ei gynnig o le ar un o raglenni'r Brifysgol nes iddo raddio/dynnu'n ôl o'r Brifysgol. Os cewch eich arestio a/neu os byddwch yn derbyn unrhyw gyhuddiadau, rhybuddiadau a/neu euogfarnau troseddol, neu os byddwch yn destun amodau mechnïaeth, bydd angen i chi roi gwybod i Gyfarwyddwr y Gwasanaethau Academaidd yn ddi-oed. Os na fyddwch yn gwneud hyn, gellir barnu eich bod wedi torri Gweithdrefnau Disgyblu'r Brifysgol a gellir eich cosbi yn unol â'r Gweithdrefnau hyn (sydd ar gael yn: https://myuni.swansea.ac.uk/academic-life/academic-regulations/conduct-and-complaints/disciplinary-procedures/).

12.5. Ar ben hyn, gofynnir i ymgeiswyr am bob rhaglen gadarnhau nad ydynt yn ymwybodol o unrhyw ymddygiad blaenorol ganddynt a allai niweidio enw da'r Brifysgol. Gall ymddygiad o'r fath gynnwys - ond nid yw'r rhestr yn gyfyngedig i hyn - ymddygiad y gellir tybio ei fod yn drosedd o'i ddwyn at sylw'r heddlu neu sylwadau a gyhoeddir yn electronig (ar blatfformau'r cyfryngau cymdeithasol er enghraifft ond heb fod yn gyfyngedig i'r rhain) y gellir barnu eu bod yn hynod sarhaus neu fod ganddynt botensial i niweidio enw da'r Brifysgol. Gellir gofyn i ymgeiswyr sy'n datgelu ymddygiad o'r fath ddarparu rhagor o wybodaeth a ddefnyddir wrth gynnal asesiad risg mewn perthynas â derbyn ymgeisydd i'r Brifysgol. Os deuir i'r casgliad y gallai'r ymgeisydd beri risg sylweddol i ddiogelwch myfyrwyr, staff neu ymwelwyr y Brifysgol a/neu y gallai achosi niwed difrifol i enw da'r Brifysgol, gellir tynnu cynnig o le yn ôl. Am ragor o wybodaeth, ewch i: https://www.swansea.ac.uk/media/criminal-convictions-policy-2018-v2.pdf

13. Rhaglenni proffesiynol

13.1. Os ydych yn cyflwyno cais am raglen broffesiynol, gan ddibynnu ar y rhaglen, gofynnir i chi ddarparu gwybodaeth am eich iechyd, cael prawf iechyd a/neu ddarparu tystiolaeth o'ch statws imiwneiddio, a hynny erbyn dyddiadau penodedig. Mae rhaglenni felly yn cynnwys cyrsiau Meddygaeth i Raddedigion, Bydwreigiaeth, Nyrsio a Gwyddor Barafeddygol, ond heb fod yn gyfyngedig i'r rhain. Mae eich cynnig o le yn amodol ar fodloni'r gofynion hyn. Ar ben hynny, mae'n bosib y bydd yn ofynnol i chi lofnodi Côd Ymddygiad Proffesiynol cyn i chi gofrestru i dynnu'ch sylw at ofynion penodol yn eich rhaglen sy'n ymwneud ag addasrwydd i ymarfer. Bydd y Brifysgol yn penderfynu a fydd yr wybodaeth a ddatgelir yn anghydnaws â'ch derbyn i'r rhaglen. Os ydyw, neu os nad ydych yn darparu'r wybodaeth honno neu gael y prawf iechyd hwnnw erbyn y dyddiad a bennwyd, byddwn yn eich hysbysu ein bod yn tynnu'r cynnig o le yn ôl ac yn terfynu eich contract. Darllenwch yr wybodaeth fanwl am ba raglenni mae'r gofynion hyn yn berthnasol iddynt.

13.2. Os ydych wedi'ch cofrestru ar raglen broffesiynol â gofynion 'Addasrwydd i Ymarfer', gellir gofyn i chi ddarparu gwybodaeth am eich iechyd, cael prawf iechyd a/neu ddarparu tystiolaeth o'ch statws imiwneiddio cyn i chi gofrestru neu ailgofrestru ar gyfer pob sesiwn academaidd. Bydd y Brifysgol yn penderfynu a fydd yr wybodaeth a ddatgelir yn anghydnaws ag astudio ar y rhaglen. Os ydyw, neu os nad ydych yn darparu'r wybodaeth honno neu gael y prawf iechyd hwnnw erbyn y dyddiad a bennwyd, gall y Brifysgol eich atal rhag astudio dros dro neu ofyn i chi adael y Brifysgol yn unol â Rheoliadau'r Brifysgol ynghylch Addasrwydd i Ymarfer: https://myuni.swansea.ac.uk/academic-life/academic-regulations/conduct-and-complaints/fitness-to-practise/)

14. Anableddau

14.1. Os oes gennych anabledd neu gyflwr iechyd, bydd y Brifysgol yn ceisio eich cefnogi pryd bynnag y bydd hi'n rhesymol gwneud hynny. Os nad ydych wedi datgelu anabledd eto, byddem yn eich annog i wneud hynny cyn gynted â phosib er mwyn i ni asesu eich anghenion a cheisio eu cefnogi. Gall anghenion myfyrwyr unigol amrywio (hyd yn oed os yw'r un cyflwr ganddynt), felly byddem yn eich annog i gysylltu â'r Swyddfa Anableddau neu'r Gwasanaeth Lles cyn i chi dderbyn cynnig o le er mwyn cael gwybod pa gymorth all fod ar gael i chi a pha dystiolaeth y gall fod angen arnom i ddiwallu eich anghenion cymorth. Mae rhagor o wybodaeth a manylion cyswllt ar gael ar dudalennau gwe'r gwasanaethau yn www.swansea.ac.uk/disability ac yn www.swansea.ac.uk/wellbeing

14.2. Os byddwch yn dewis peidio â dweud wrthym am eich anabledd, neu'n dewis darparu'r wybodaeth hon ar fyr rybudd cyn dyddiad dechrau eich rhaglen neu arholiad/asesiad, neu os nad ydych yn darparu gwybodaeth lawn amdano cyn neu yn ystod eich rhaglen astudio, byddwn yn gwneud ein gorau i'ch helpu, ond mae'n bosib na fyddwn yn gallu darparu'r ystod lawn o gymorth a allai fod ar gael i chi fel arall, neu gallai fod oedi o ran darparu'r cymorth hwnnw.

15. Derbyn Myfyrwyr Dan Oed

15.1. Os byddwch rhwng 16 oed a 18 oed adeg cofrestru, bydd rhaid i riant neu warcheidwad lofnodi datganiad adeg eich cynnig - bydd eich cynnig yn amodol ar ddarparu'r datganiad hwn i ni.

15.2. Gellir gweld polisi llawn y Brifysgol ynghylch Diogelu Grwpiau sy'n Agored i Niwed, gan gynnwys y polisi ar dderbyn myfyrwyr dan oed, ar-lein yn: https://www.swansea.ac.uk/media/Safeguarding-Vulnerable-Groups-Policy-2018.docx

16. Sefydliadau sy'n Cydweithredu

16.1. Bydd rhai rhaglenni yn cynnwys astudio a/neu weithio mewn Sefydliad sy'n Cydweithredu y tu allan i'r Brifysgol. Enghreifftiau o hyn yw rhaglenni sy'n cynnwys: blwyddyn yn astudio mewn sefydliad tramor; lleoliadau gwaith mewn diwydiant neu gwmnïau; a lleoliadau gwaith mewn sefydliadau proffesiynol fel y GIG, Awdurdod Lleol, Gwasanaeth Ambiwlans Cymru ac ati.

16.2. Os byddwch yn astudio a/neu'n gweithio mewn Sefydliad sy'n Cydweithredu fel rhan o'ch rhaglen, mae'n bosib y gofynnir i chi ddarparu gwybodaeth neu fodloni gofynion penodol erbyn dyddiadau penodedig cyn dechrau'r cyfnod astudio/gweithio neu yn ystod y cyfnod hwnnw. Gallai'r rhain gynnwys gwybodaeth neu ofynion sy'n ymwneud ag yswiriant, imiwneiddio a fisâu, ond heb fod yn gyfyngedig i hynny. Bydd y Brifysgol yn penderfynu a fydd yr wybodaeth a ddatgelir yn anghydnaws â chymryd rhan yn y lleoliad gwaith neu astudio. Os ydyw, neu os nad ydych yn darparu'r wybodaeth y gofynnwyd amdani neu'n cydymffurfio â'r gofynion hynny erbyn y dyddiad penodedig, gall y Brifysgol eich atal rhag astudio, eich symud i raglen arall, gofyn i chi adael y Brifysgol a/neu derfynu eich Contract gyda'r Brifysgol.

16.3. Os byddwch yn astudio a/neu'n gweithio mewn Sefydliad sy'n Cydweithredu fel rhan o'ch rhaglen, bydd yn ofynnol i chi lynu wrth bolisïau, rheoliadau a thelerau contract penodol ychwanegol y Sefydliad sy'n Cydweithredu, gan gynnwys rheolau iechyd a diogelwch a rheoliadau disgyblu. Os byddwch yn gweithredu'n groes i'r polisïau, y rheoliadau neu'r telerau contract ychwanegol hyn, gall y Sefydliad sy'n Cydweithredu eich gwahardd o'r lle gwaith/astudio. Ar ben hynny, gall y Sefydliad sy'n Cydweithredu eich gwahardd o'r lle gwaith/astudio os yw'n ystyried bod hynny'n angenrheidiol oherwydd eich ymddygiad neu eich addasrwydd proffesiynol neu oherwydd perygl i ddiogelwch eraill. Os cewch eich gwahardd o le gwaith/astudio Sefydliad sy'n Cydweithredu ac mae cwblhau'r cyfryw waith neu astudiaeth yn un o ofynion eich rhaglen, mae'r Brifysgol yn cadw'r hawl i'ch atal rhag astudio, i'ch trosglwyddo i raglen arall, i ofyn i chi adael y Brifysgol a/neu i derfynu eich Contract gyda'r Brifysgol. Os byddwch yn gweithredu'n groes i bolisïau, rheoliadau neu delerau contract ychwanegol y Sefydliad sy'n Cydweithredu, gellir ymdrin â hynny fel achos o dorri Rheoliadau'r Brifysgol hefyd, ac o ganlyniad gallai'r Brifysgol fynnu eich bod yn gadael, gall atal gwasanaethau a/neu derfynu eich Contract gyda'r Brifysgol.

17. Diogelu Data

17.1. Bydd y Brifysgol yn casglu amrywiaeth o wybodaeth amdanoch fel rhan o'r gweithdrefnau cyflwyno cais a chofrestru ac mewn perthynas â'ch cynnydd academaidd. Gall hyn gynnwys data personol o natur sensitif. Defnyddir yr wybodaeth a gesglir yn bennaf er mwyn prosesu eich cais a chreu a chynnal eich cofnod myfyriwr.

17.2. Caiff yr holl wybodaeth bersonol ei chadw a'i phrosesu yn unol â gofynion Deddf Diogelu Data 2018, y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data a deddfwriaeth arall yn y maes.

17.3. Fel rheol, cedwir yr wybodaeth yn gyfrinachol rhwng yr ymgeisydd, y staff priodol yn y Brifysgol a Gwasanaeth Fisâu a Mewnfudo'r DU y Swyddfa Gartref yn achos ymgeiswyr rhyngwladol.

17.4. Mewn rhai achosion gellir rhannu data o geisiadau â chyrff allanol hefyd lle datblygwyd rhaglenni ar y cyd â sefydliadau trydydd parti. Ar ben hynny, er mwyn canfod ac atal twyll, mae gan y Brifysgol yr hawl i rannu gwybodaeth â sefydliadau allanol, megis yr Heddlu, awdurdodau lleol, cyrff arholi neu ddyfarnu, a'r Adran Gwaith a Phensiynau a'i hasiantaethau.

17.5. Mae'n ofynnol i'r Brifysgol gyflwyno gwybodaeth a darparu adroddiadau statudol i gyrff megis yr Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch (HESA)

17.6. Gellir gweld polisi'r Brifysgol ynghylch diogelu data myfyrwyr yn:
https://www.swansea.ac.uk/about-us/compliance/data-protection/student-privacy-notice/

17.7. Gellir gweld polisi'r Brifysgol ynghylch diogelu data ymgeiswyr yma:
https://www.swansea.ac.uk/cy/astudio/derbyn-myfyrwyr/datganiad-preifatrwydd-data-ymgeiswyr/

17.8. Os oes gennych ymholiadau, neu os oes angen rhagor o fanylion arnoch am ddiogelu data, cysylltwch â Swyddog Diogelu Data'r Brifysgol drwy e-bost: dataprotection@abertawe.ac.uk

18. Cywirdeb Gwybodaeth

18.1. Trwy dderbyn Cynnig rydych yn cadarnhau bod yr wybodaeth a ddarparwyd ar eich ffurflen gais ac mewn perthynas â'ch cais yn wir, yn gyflawn ac yn gywir, ac nad ydych wedi hepgor unrhyw wybodaeth y gofynnwyd amdani na gwybodaeth berthnasol arall. Mae'r Brifysgol yn cadw'r hawl i brofi dilysrwydd yr wybodaeth a ddarparwyd yn eich cais a/neu mewn perthynas ag ef ac mae'n cadw'r hawl i ganslo eich cais a therfynu eich contract a/neu ofyn i chi adael y Brifysgol os yw'n penderfynu bod gwybodaeth anwir, anghywir, anghyflawn a/neu gamarweiniol wedi'i darparu i ategu eich cais naill ai gennych chi, gan eich canolwr neu gan rywun arall sy'n gweithredu ar eich rhan.

18.2. Bydd y Brifysgol yn gofyn am gadarnhad o'ch cymwysterau yn uniongyrchol gan y sefydliad neu'r corff dyfarnu. Lle na fydd cadarnhad wedi'i dderbyn cyn i chi gofrestru gyda'r Brifysgol, bydd y Swyddfa Dderbyn/Gwasanaethau Academaidd yn gofyn i chi ddarparu eich tystysgrif gradd wreiddiol neu gadarnhad swyddogol y dyfarnwyd gradd i chi cyn caniatáu i chi gofrestru gyda'r Brifysgol. Felly, dylech ddod â'ch tystysgrifau cymwysterau gwreiddiol a/neu drawsgrifiadau i gofrestru gyda'r Brifysgol. Mae'r Brifysgol yn cadw'r hawl i ganslo eich cais a therfynu eich contract a/neu ofyn i chi adael y Brifysgol os nad ydych yn darparu'r dogfennau hyn (lle gofynnwyd amdanynt) erbyn y dyddiad penodedig.

19. Rhaglenni Ymchwil Ôl-raddedig

19.1. Bydd gan bob rhaglen gradd ymchwil ôl-raddedig gyfnod arferol o astudio dan oruchwyliaeth - y cyfnod ymgeisyddiaeth byrraf ('y dyddiad gorffen disgwyliedig' a nodir yn eich llythyr cynnig) a disgwylir i fyfyrwyr gyflwyno eu gwaith ar ddiwedd y cyfnod hwnnw. Ceir dyddiad cyflwyno olaf hefyd, ac ar ôl y dyddiad hwnnw bernir bod amser myfyriwr wedi dod i ben ac ni chaniateir iddo gyflwyno traethawd ymchwil ("dyddiad diwedd yr ymgeisyddiaeth" yn eich llythyr cynnig). Ar ddiwedd y cyfnod ymgeisyddiaeth byrraf disgwylir y bydd y myfyriwr wedi cwblhau ei ymchwil a'i fod yn barod i gyflwyno'r traethawd ymchwil. Rhaid i fyfyriwr gyflwyno ei draethawd ymchwil ar ddyddiad cyflwyno olaf ei ymgeisyddiaeth neu cyn hynny. Os nad yw'n gwneud hynny, bernir bod ei amser wedi dod i ben ac ni chaniateir iddo gyflwyno ei draethawd ymchwil a bydd rhaid iddo ymadael.

19.2. Yn ystod eich ymgeisyddiaeth ymchwil disgwylir i chi ddangos cynnydd academaidd boddhaol drwy asesu parhaus. Gellir gofyn i chi drosglwyddo i raglen dyfarniad is (os yw hynny'n briodol, gweler y tabl isod) neu i roi'r gorau i astudio os bernir nad ydych wedi gwneud cynnydd academaidd digonol yn unol â meini prawf cynnydd y Coleg/yr Ysgol/y Brifysgol, y targedau ymchwil neu os nad ydych wedi cydymffurfio â rheoliadau'r Brifysgol ar unrhyw adeg.

Rhaglen Astudio	**Dyfarniad Is**
PhD	MPhil
Doethuriaeth Broffesiynol EngD/DNursci	MPhil, MRes neu MSc drwy Ymchwil, Tystysgrif Ôl-raddedig 60 credyd Diploma Ôl-raddedig -120 credyd
MD	MA/MSc drwy Ymchwil
MPhil	MA/MSc drwy Ymchwil
MA/MSc drwy Ymchwil	Dim
MPhil drwy Waith a Gyhoeddwyd	Dim
PhD drwy Waith a Gyhoeddwyd	Dim

Am ragor o fanylion am gynnydd academaidd a rhaglenni is/dyfarniadau ymadael, darllenwch y Canllawiau ar Fonitro Cynnydd Myfyrwyr Ymchwil yn www.swansea.ac.uk/cy/gwasanaethau-academaidd/canllaw-academaidd/derbyn-ymgeisiaeth-a-gweithdrefnau/canllawiau-ar-fonitro-cynnydd-myfyrwyr-ymchwil/

19.3. Ni all y Brifysgol sicrhau y bydd y goruchwylwyr disgwyliedig a enwyd yn eich cynnig ar gael gan fod symudiadau'r goruchwylwyr y tu hwnt i reolaeth y Brifysgol mewn rhai achosion. Os bydd unrhyw rai o'r goruchwylwyr disgwyliedig yn gadael eu swydd ym Mhrifysgol Abertawe neu'n methu eich goruchwylio am reswm arall, bydd y Brifysgol yn cymryd camau rhesymol i nodi a darparu goruchwylwyr eraill ar eich cyfer, ond ni all gynnig sicrwydd y bydd hynny'n bosib. Os na fydd hynny'n bosib, efallai y bydd angen cynnig maes ymchwil gwahanol.

19.4. Mewn achos lle mae cyllid yn gysylltiedig â goruchwyliwr a enwyd, ni fydd y cynnig a'r cyllid yn ddilys o hyd oni bai fod y goruchwyliwr a enwyd yn parhau yn ei swydd ac yn gallu eich goruchwylio. Nid oes sicrwydd y bydd y cyllid yn parhau os bydd y goruchwyliwr a enwyd yn gadael y Brifysgol neu'n methu eich goruchwylio am reswm arall. Bydd y Brifysgol yn gwneud ei gorau glas i'ch helpu, fodd bynnag, os byddwch yn penderfynu aros yn y Brifysgol neu drosglwyddo i Brifysgol arall gyda'r goruchwyliwr a enwyd.

20. Gofynion Iaith Saesneg

20.1. Rhaid i'r holl fyfyrwyr nad Saesneg yw eu mamiaith ddangos eu bod wedi cyrraedd lefel benodol o Saesneg cyn dechrau eu rhaglen. Os yw amodau eich cynnig yn cynnwys gofynion iaith Saesneg, mae dwy ffordd i chi ddangos hyn:

20.1.1. Drwy brawf iaith Saesneg cymeradwy neu gymhwyster arall a restrir yn www.swansea.ac.uk/international/students/requirements/english-requirements

20.1.2. Cwblhau Rhaglen Iaith Saesneg Gyn-sesiynol y Gwasanaeth Hyfforddiant Iaith Saesneg (ELTS) yn llwyddiannus ar y lefel ofynnol cyn dechrau eich rhaglen academaidd. Am ragor o wybodaeth, ewch i: www.swansea.ac.uk/elts

20.2. Hyd yn oed os yw myfyrwyr yn bodloni gofynion iaith Saesneg y Brifysgol, mae'r Brifysgol yn cadw'r hawl i fynnu bod myfyrwyr nad ydynt wedi llwyddo mewn Prawf Iaith Saesneg Sicr a gymeradwywyd gan yr UKVI, yn sefyll prawf wrth gyrraedd i asesu a oes angen cymorth iaith ychwanegol arnynt, ac i helpu i lywio polisi Iaith Saesneg y Brifysgol.

21. Fisâu a chaniatâd i fewnfudo

21.1. Os ydych yn fyfyriwr rhyngwladol, gall fod angen fisa arnoch i'ch galluogi i astudio yn y DU. Mae'r Brifysgol yn cadw'r hawl i dynnu eich cynnig o le yn ôl neu derfynu eich contract gyda'r Brifysgol os daw'n amlwg wedyn nad ydych yn gymwys am fisa, neu os bydd gofynion y fisa'n newid ar ôl i chi gael cynnig lle, er enghraifft os daw'n amlwg na allwch fodloni gofynion yr UKVI, megis y rhai sy'n ymwneud â gallu iaith Saesneg, dilyniant academaidd a chredadwyaeth. Darllenwch y polisi cyffredinol ar dderbyn myfyrwyr am ragor o wybodaeth; https://www.swansea.ac.uk/media/Overarching-admissions-policy-2019-20-final.pdf). I gael gwybodaeth am faterion mewnfudo, e-bostiwch dîm MyfyrwyrRhyngwladol@BywydCampws y Brifysgol yn International@CampusLife@abertawe.ac.uk.

22. Blaendaliadau ar gyfer Ymgeiswyr Rhyngwladol

22.1. Os ydych yn ymgeisydd rhyngwladol ac mae angen Fisa Llwybr Myfyriwr (Fisa Haen 4 gynt) arnoch i astudio yn y DU, byddwn yn gofyn i chi dalu blaendal o £4000 tuag at eich ffioedd dysgu fel prawf o'ch bwriad i astudio ym Mhrifysgol Abertawe cyn i ni ddarparu eich datganiad Cadarnhad Derbyn i Astudio (CAS). Y tu allan i'r cyfnod ailfeddwl o 14 diwrnod, ni fyddwn yn ad-dalu'r blaendal fel arfer, oni bai y gwrthodir fisa i chi ar gyfer astudio amser llawn yn y DU neu rydych yn methu bodloni gofynion mynediad y Brifysgol. Gellir trosglwyddo'r blaendal i flwyddyn astudio yn y dyfodol.

22.2. Am ragor o wybodaeth, ewch i: http://www.swansea.ac.uk/undergraduate/fees-and-funding/tuition-fees/refunds-policy/

23. Eiddo Deallusol

23.1. Os byddwch yn dyfeisio neu'n datblygu dyfais, darganfyddiad, deunydd, cynnyrch, proses, meddalwedd gyfrifiadurol neu unrhyw ganlyniad neu newydd-beth arall a allai fod yn werthfawr, boed hynny â mewnbwn perthnasol gan staff academaidd y Brifysgol neu fel rhan o brosiect cydweithredol, bydd Polisi'r Brifysgol ynghylch Eiddo Deallusol a grëwyd gan ein Myfyrwyr yn berthnasol. Am ragor o wybodaeth, dilynwch y ddolen: https://www.swan.ac.uk/media/Student%21IP%21Policy.pdf

24. Ymddygiad a Chyfranogiad

24.1. Rhaid i chi fod yn ymwybodol o Reoliadau'r Brifysgol ynghylch safonau ac ymddygiad, uniondeb academaidd a chyfranogiad a chydymffurfio â'r rhain. Gall y Brifysgol eich cosbi os nad ydych yn cydymffurfio â'r gofynion hynny ac, mewn achosion difrifol, gall y Brifysgol eich atal rhag astudio neu ofyn i chi adael y Brifysgol. Ar ben hynny, gall y Brifysgol atal eich astudiaethau neu ofyn i chi adael y Brifysgol os yw'n credu'n rhesymol fod caniatáu i chi barhau ar eich rhaglen yn peri risg sylweddol o niwed i chi neu eraill. Mae rhagor o wybodaeth am hyn ar gael yn y Rheoliadau a'r Gweithdrefnau canlynol:

- Gweithdrefnau Disgyblu – ar gael yn: https://myuni.swansea.ac.uk/academic-life/academic-regulations/conduct-and-complaints/disciplinary-procedures/
- Y Weithdrefn Camymddygiad Academaidd - ar gael yma: https://myuni.swansea.ac.uk/academic-life/academic-regulations/assessment-and-progress/academic-misconduct-procedure/
- Rheoliadau Addasrwydd i Ymarfer – ar gael yn: https://myuni.swansea.ac.uk/academic-life/academic-regulations/conduct-and-complaints/fitness-to-practise/
- Polisi Monitro Presenoldeb Myfyrwyr a Addysgir – ar gael yn https://myuni.swansea.ac.uk/academic-life/academic-regulations/aqs-policies/engagement-monitoring-policy-for-taught/
- Polisi Monitro Cyfranogiad Myfyrwyr Haen 4/Llwybr Myfyrwyr - ar gael yn https://myuni.swansea.ac.uk/academic-life/academic-regulations/aqs-policies/tier-4-attendance-monitoring-policy/
- Polisi Monitro Cyfranogiad Myfyrwyr Ymchwil - ar gael yn https://myuni.swansea.ac.uk/academic-life/academic-regulations/aqs-policies/engagement-monitoring-policy-for-research/
- Gweithdrefnau Addasrwydd i Astudio - ar gael yn https://myuni.swansea.ac.uk/academic-life/academic-regulations/assessment-and-progress/fitness-to-study-procedure/
- Rheoliadau asesu ar gyfer y rhaglen astudio - ar gael yn https://myuni.swansea.ac.uk/academic-life/academic-regulations/

25. Pryd gellir gofyn i chi adael y Brifysgol/hawl y Brifysgol i derfynu ei chontract gyda chi

25.1. Gall y Brifysgol dynnu ei Chynnig yn ôl, gofyn i chi adael y Brifysgol a therfynu ei chontract gyda chi, heb atebolrwydd, unrhyw bryd (yn unol ag unrhyw bolisïau/gweithdrefnau perthnasol) drwy rybudd ysgrifenedig yn yr amgylchiadau canlynol:

25.1.1. rydych chi'n torri'r Amodau a Thelerau hyn, Rheoliadau'r Brifysgol a/neu unrhyw amodau a nodir yn eich llythyr cynnig mewn ffordd ddifrifol;

25.1.2. canfyddir y darparwyd gwybodaeth ffug, anghywir, anghyflawn a/neu gamarweiniol i ategu eich cais a/neu mewn cysylltiad â'ch cais gennych chi, gan eich canolwr neu berson arall sy'n gweithredu ar eich rhan, gan gynnwys gwybodaeth ynghylch euogfarnau troseddol heb eu disbyddu;

25.1.3. rydych yn methu bodloni unrhyw ofynion a/neu amodau arbennig (a nodir yn eich llythyr cynnig) ar gyfer eich Rhaglen, neu nid ydych yn eu bodloni mwyach oherwydd newid yn eich amgylchiadau;

25.1.4. Os ydych yn fyfyriwr y mae angen nawdd o dan Haen 4/Llwybr Myfyriwr System Seiliedig ar Bwyntiau'r UKVI arnoch:

25.1.4.1. mae angen fisa arnoch i astudio yn y DU ac nid ydych wedi cael fisa erbyn dyddiad dechrau eich Rhaglen (neu yn unol â chonsesiynau'r UKVI mewn perthynas â COVID-19 yn unig, erbyn yr adeg rydych yn bwriadu cyrraedd y DU i ddechrau eich Rhaglen wyneb yn wyneb);

25.1.4.2. ni allwch ddarparu'r dogfennau sy'n ofynnol fel rhan o'n Trwydded Noddwr Haen 4/Llwybr Myfyriwr yr UKVI;

25.1.4.3. gwrthodwyd rhoi fisa i chi yn y gorffennol i astudio yn y DU;

25.1.4.4. rydych chi wedi darparu dogfennau na all y Brifysgol gadarnhau eu bod yn ddilys neu y mae'n credu eu bod yn annilys;

25.1.4.5. nid ydych wedi gweithredu yn unol â chyfyngiadau eich fisa Haen 4/Llwybr Myfyriwr; neu

25.1.4.6. nid ydych wedi cydymffurfio, neu gynorthwyo'r Brifysgol i gydymffurfio ag unrhyw Reolau Mewnfudo, Canllawiau Haen 4/Llwybr Myfyriwr perthnasol neu ofynion eraill y Swyddfa Gartref sydd mewn grym o bryd i'w gilydd, gan gynnwys y canlynol ond heb fod yn gyfyngedig iddynt:

25.1.4.6.1. iaith Saesneg;

25.1.4.6.2. monitro cyfranogiad a phwyntiau gwirio;

25.1.4.6.3. gwirio bod telerau eich fisa'n gywir;

25.1.4.6.4. rhoi gwybod am unrhyw ddiwygiadau neu newidiadau yn eich statws mewnfudo;

25.1.4.6.5. cadw eich cyfeiriad, eich rhif ffôn a'ch cyfeiriad e-bost personol yn y DU yn gyfredol yn eich cofnod myfyriwr; a/neu

25.1.4.6.6. gadw at y cyfyngiadau ar oriau gwaith a nodir yn eich fisa;

25.1.4.7. mae'r Brifysgol o'r farn yn dilyn ymchwiliad rhesymol, neu caiff y Brifysgol ei hysbysu gan yr UKVI, eich bod yn fygythiad i reoli mewnfudo neu ddiogelwch cenedlaethol; neu

25.1.4.8. mae eich cofrestriad parhaus gyda'r Brifysgol yn golygu ein bod mewn sefyllfa, neu mae'n bygwth ein rhoi mewn sefyllfa lle byddem yn torri ein rhwymedigaethau cyfreithiol i gydymffurfio â gofynion mewnfudo neu ofynion eraill y DU, a allai beri i'r Brifysgol dynnu nawdd Haen 4 yn ôl;

25.1.5. mae eich rhaglen yn cynnwys astudio a/neu weithio mewn Sefydliad Cydweithredu ac rydych yn methu bodloni, neu nid ydych yn eu bodloni mwyach oherwydd newid yn eich amgylchiadau, unrhyw ofynion a/neu amodau perthnasol, neu rydych yn torri polisïau, rheoliadau neu delerau contract eraill y Sefydliad Cydweithredu hwnnw (gweler paragraff 16 uchod);

25.1.6. nid yw eich cynnydd academaidd yn foddhaol a gofynnir i chi adael y Rhaglen neu'r Brifysgol yn dilyn penderfyniad gan Fwrdd Arholi, Dilyniant neu Ddyfarniadau'r Brifysgol;

25.1.7. gofynnir i chi adael y Brifysgol oherwydd eich bod wedi torri rheoliadau a gweithdrefnau Disgyblu, Camymddygiad Academaidd, Addasrwydd i Ymarfer, Addasrwydd i Astudio a/neu Fonitro Cyfranogiad yn unol â'r rheoliadau perthnasol (gweler y dolenni i'r Rheoliadau a'r Gweithdrefnau hyn ym mharagraff 24.1 uchod);

25.1.8. nid ydych yn talu eich ffioedd dysgu yn unol â pholisi'r Brifysgol ar Ddyled Myfyrwyr (ar gael yn https://www.swansea.ac.uk/finance-swansea-university/paying-tuition-fees-and-other-information/student-debt-policy/);

25.1.9. cewch eich diarddel o unrhyw sefydliad neu gwrthodir mynediad neu aelodaeth i chi mewn unrhyw sefydliad y mae'n ofynnol i chi fod yn aelod ohono neu ei fynychu fel rhan o'ch rhaglen;

25.1.10. mae eich ymddygiad, ym marn resymol y Brifysgol, yn cynrychioli risg sylweddol i'ch iechyd, eich diogelwch neu eich llesiant chi neu eraill;

25.1.11. nid ydych yn cofrestru neu'n ailgofrestru ar eich rhaglen erbyn y dyddiadau a bennir;

25.1.12. rydych yn derbyn dedfryd o garchar am 12 mis neu fwy neu sy'n hwy na gweddill cyfnod eich ymgeisyddiaeth. Byddem yn ysgrifennu atoch i roi gwybod i chi am benderfyniad o'r fath i ofyn i chi adael ac yn rhoi gwybod i chi am eich hawl i ofyn am adolygiad o'r penderfyniad.

25.2. Caiff penderfyniad i fynnu eich bod yn gadael y Brifysgol ei wneud yn unol â'r gweithdrefnau perthnasol a bydd yn amodol ar hawl i apelio neu i gael adolygiad. Os oes gan y Brifysgol reswm da dros ofyn i chi adael a'i bod yn gwneud hynny'n unol â'r amodau a thelerau hyn ac unrhyw weithdrefn berthnasol, ni fydd y Brifysgol yn eich digolledu am golled neu niwed y gallech eu dioddef o ganlyniad i hynny.

25.3. Pan fyddwch yn gadael bydd rhaid i chi ddychwelyd holl eiddo'r Brifysgol i swyddfa eich Coleg. Yn ogystal, bydd rhaid i chi dalu Ffioedd sy'n ddyledus (a all gynnwys yr holl ffioedd a fydd yn ddyledus yn y dyfodol). Ni fydd y camau a gymerwyd gan y Brifysgol o ran gofyn i chi adael yn cyfyngu ar ei gallu i gymryd camau pellach y mae ganddi hawl i'w cymryd yn eich erbyn.

25.4. Os bydd y Brifysgol yn terfynu eich contract, bydd ganddi hawl hefyd i derfynu unrhyw gontract arall rydych wedi ymrwymo iddo gyda'r Brifysgol, gan gynnwys cytundeb llety.

26. Eich hawl chi i derfynu'r contract

26.1. Cewch derfynu'r contract drwy rybudd ysgrifenedig i'r Brifysgol yn yr amgylchiadau canlynol:

26.1.1. nid ydych yn derbyn newidiadau sylweddol rydym wedi'u gwneud i'r Rhaglen a/neu i'r Amodau a Thelerau hyn (gan gynnwys y dogfennau y cyfeirir atynt yn yr Amodau a Thelerau) yn unol â pharagraffau 3.7 i 3.10 ar yr amod rydych yn ein hysbysu nad ydych yn derbyn newidiadau sylweddol o'r fath o fewn 14 diwrnod i gael eich hysbysu o'r cyfryw newidiadau sylweddol. Mewn amgylchiadau o'r fath, ni fyddwn yn gofyn i chi dalu ffioedd a fydd yn ddyledus yn y dyfodol ond byddwch yn gyfrifol am ffioedd hyd at y dyddiad y daw'r contract i ben ac ni fydd gennych hawl i ad-daliad y ffioedd a dalwyd hyd at y dyddiad pan gaiff y contract ei derfynu;

26.1.2. lle bo'r Brifysgol yn torri'r Amodau a Thelerau hyn mewn modd difrifol ac nid yw wedi unioni'r fath achos difrifol o'u torri mewn cyfnod rhesymol. Mewn amgylchiadau o'r fath, ni fyddwn yn gofyn i chi dalu ffioedd sy'n ddyledus yn y dyfodol a byddwch yn gyfrifol am ffioedd hyd at y dyddiad y daw'r contract i ben ond mae'n bosib y bydd gennych hawl i ad-daliad ffioedd hyd at y dyddiad pan gaiff y contract ei derfynu am wasanaethau nas derbyniwyd;

26.1.3. lle rydych yn arfer eich hawliau i ganslo yn ystod y cyfnod ailfeddwl yn unol â pharagraff 8; ac

26.1.4. unrhyw adeg arall heb reswm. Os ydych yn darparu rhybudd o'ch bwriad i derfynu'r contract cyn dechrau pob blwyddyn academaidd, ni fyddwch yn gyfrifol am unrhyw Ffioedd am y blynyddoedd academaidd dilynol. Fodd bynnag, os dymunwch derfynu eich contract yng nghanol y flwyddyn academaidd berthnasol, gallwch fod yn gyfrifol am y Ffioedd am weddill eich blwyddyn academaidd, a byddwn yn trafod â chi y lefel o ad-daliad y gallai fod gennych hawl iddo. Fodd bynnag, mae'n bosib na fydd gennych hawl i ad-daliad llawn yn yr amgylchiadau hyn.

27. Atal y contract dros dro

27.1. Gall fod adegau pan fydd rhaid i chi atal eich astudiaethau dros dro oherwydd amgylchiadau esgusodol megis salwch neu brofedigaeth. Bydd angen i chi gysylltu â'ch adran academaidd a/neu Gymorth Myfyrwyr os oes gennych anawsterau a allai effeithio ar eich gallu i barhau ar eich rhaglen. Os cytunwn i atal y Contract dros dro, byddwn yn rhoi gwybod i chi'n ysgrifenedig.

27.2. Gall fod adegau pan fydd angen i'r Brifysgol atal eich astudiaethau a/neu'r contract hwn mewn amgylchiadau lle rydych chi'n torri eich rhwymedigaethau o dan y contract hwn, neu honnir eich bod yn eu torri, ac mae'r Brifysgol yn cadw'r hawl i atal eich astudiaethau neu'r contract hwn dros dro drwy ddarparu hysbysiad ysgrifenedig i chi i alluogi'r Brifysgol i gynnal ymchwiliad neu fel cosb yn unol â'r gweithdrefnau a nodir yn Rheoliadau'r Brifysgol neu oherwydd y byddai, ym marn resymol y Brifysgol, yn niweidiol i'ch iechyd, eich diogelwch neu'ch llesiant chi neu eraill pe byddech yn mynychu'r Brifysgol. Mae gennych hawl i apelio yn erbyn penderfyniad i'ch atal dros dro o'r Brifysgol yn unol â'r Rheoliadau Disgyblu.

28. Diddymu Dyfarniadau

28.1. Mae'r Brifysgol yn cadw'r hawl i ymchwilio i honiadau o gamymddygiad academaidd ar ôl i ddyfarniad gael ei roi i fyfyriwr, ac i benderfynu ar y fath honiadau, yn unol â'r Weithdrefn Camymddygiad Academaidd. Os deuir i'r casgliad, ar ôl i chi dderbyn dyfarniad, eich bod wedi cyflawni camymddygiad academaidd, gallai'r Brifysgol ddiddymu eich dyfarniad o ganlyniad i hynny. (Gweler y ddolen i'r Weithdrefn hon yn 20.1 uchod).

29. Cwynion

29.1. Mae'r Brifysgol wedi ymrwymo i ddarparu profiad addysgol o safon uchel a gefnogir gan amrywiaeth o wasanaethau a chyfleusterau academaidd a gweinyddol. Fodd bynnag, o bryd i'w gilydd gall pethau fynd o chwith.

29.2. Os ydych chi'n fyfyriwr cofrestredig ac yn anfodlon ar eich dysgu ac addysgu neu ar y cyfleusterau neu'r gwasanaethau a ddarperir gan y Brifysgol a hoffech gwyno, dylech ddilyn Gweithdrefn Cwynion y Brifysgol sydd ar gael yn https://myuni.swansea.ac.uk/academic-life/making-a-complaint/

29.3. Os yw myfyrwyr yn anfodlon o hyd ar benderfyniad ynghylch cwyn a gyflwynwyd ganddynt ar ôl cwblhau pob cam yng Ngweithdrefn Cwynion y Brifysgol mae'n bosib y gallant gwyno i Swyddfa'r Dyfarnwr Annibynnol, corff annibynnol sy'n adolygu cwynion myfyrwyr: www.oiahe.org.uk/

29.4. Mae'r gweithdrefnau ar gyfer darpar fyfyrwyr ac ymgeiswyr sy'n anfodlon ar ganlyniad cais neu ar y ffordd y cafodd cais ei drin ar gael yn: https://www.swansea.ac.uk/admissions/admissions-policies/

30. Atebolrwydd

30.1. Os bydd y Brifysgol yn methu cydymffurfio â'i rhwymedigaethau o dan yr amodau a thelerau hyn, bydd yn atebol i chi am unrhyw golled neu niwed uniongyrchol rydych yn ei ddioddef sy'n ganlyniad y gellid bod wedi'i ragweld yn rhesymol ymddygiad y Brifysgol yn torri'r contract hwn neu fethiant y Brifysgol i ddefnyddio gofal a sgil resymol.

30.2. Ni fydd y Brifysgol yn gyfrifol, fodd bynnag, am unrhyw golledion neu niwed na ellir eu rhagweld. Bydd colled neu niwed yn rhagweladwy naill ai os yw'n amlwg y byddai'n digwydd pe byddem yn torri'r Amodau a Thelerau hyn neu os oeddech chi a'r Brifysgol yn gwybod, adeg llunio'r contract, y gallai ddigwydd, er enghraifft, os oeddech wedi trafod y mater â'r Brifysgol cyn llofnodi'r contract. Ni fydd y Brifysgol yn gyfrifol, fodd bynnag, am unrhyw golled neu niwed a ddioddefir gennych y gellir ei briodoli i'ch bai chi a/neu i fai trydydd parti.

30.3. Ni fydd y Brifysgol yn gyfrifol am golledion busnes. Mae'r Brifysgol yn cyflenwi'r gwasanaethau hyn at ddefnydd domestig a phreifat yn unig. Os defnyddiwch y gwasanaethau hyn at ddibenion masnachol, busnes neu ailwerthu, ni fydd y Brifysgol yn atebol i chi am unrhyw elw neu fusnes a gollir, unrhyw darfu ar fusnes neu gyfleoedd busnes a gollir.

30.4. Ni fydd y Brifysgol yn eithrio nac yn cyfyngu ar ei hatebolrwydd am y canlynol mewn unrhyw fodd:

30.4.1. marwolaeth neu anaf personol a achosir gan esgeulustod ar ei rhan;

30.4.2. twyll neu gamliwio twyllodrus;

30.4.3. unrhyw atebolrwydd na ellir ei gyfyngu neu ei eithrio yn unol â darpariaethau adran 57 Deddf Hawliau Defnyddwyr 2015.

30.5. Nid yw'r Brifysgol yn derbyn cyfrifoldeb am unrhyw golled neu niwed i'ch eiddo. Fe'ch cynghorir i drefnu yswiriant perthnasol yn erbyn lladrad a risgiau eraill.

30.6. Yn amodol ar baragraff 30.4, bydd cyfanswm atebolrwydd y Brifysgol i chi (boed yn ôl cyfraith contract, camwedd, (gan gynnwys esgeulustod) o ganlyniad i dorri dyletswydd statudol neu arall) mewn perthynas â'ch contract gyda'r Brifysgol yn gyfyngedig i swm y Ffioedd a dalwyd gennych chi neu ar eich rhan neu'r swm, os o gwbl, mae'r Brifysgol yn ei dderbyn gan ei yswirwyr mewn perthynas â cholled benodol, pa un bynnag sydd fwyaf.

31. Digwyddiadau y tu hwnt i reolaeth y Brifysgol

31.1. Ni fydd y Brifysgol yn gyfrifol am oedi sydd y tu hwnt i'w rheolaeth. Os bydd digwyddiad y tu hwnt i reolaeth y Brifysgol yn effeithio ar ei gallu i ddarparu gwasanaethau, bydd y Brifysgol yn cysylltu â chi cyn gynted â phosib i roi gwybod i chi.

31.2. Mewn amgylchiadau o'r fath, bydd y Brifysgol yn cymryd camau rhesymol i leihau neu atal effaith y digwyddiadau sydd y tu hwnt i'w rheolaeth a bydd yn cysylltu â chi cyn gynted â phosib i'ch hysbysu am hyn. Ar yr amod bod y Brifysgol yn gwneud hyn, mae'r Brifysgol yn cadw'r hawl i newid y rhaglen gan gynnwys ei gohirio, i gyflwyno fersiwn wedi'i haddasu o'r Rhaglen (gan gynnwys addysgu ar-lein, darparu cymorth neu wasanaethau a chyfleusterau eraill i'r myfyrwyr yr effeithir arnynt fel y tybia eu bod yn briodol), cynnig cyfle i drosglwyddo i Raglen arall neu ganslo rhannau o'ch Rhaglen a/neu eich contract neu'r Rhaglen/contract cyfan.

31.3. Ar yr amod bod y Brifysgol yn gwneud hyn, ni fydd yn atebol am unrhyw oedi a achosir gan y digwyddiad, ond os oes risg y bydd oedi sylweddol, cewch gysylltu â'r Brifysgol i derfynu'r contract a derbyn ad-daliad am unrhyw wasanaethau rydych wedi talu amdanynt ond heb eu derbyn.

31.4. Ni fydd y Brifysgol yn atebol i chi am ddigwyddiadau y tu hwnt i'w rheolaeth na allai fod wedi'u rhagweld na'u hatal hyd yn oed pe byddai wedi cymryd gofal rhesymol. Mae digwyddiadau y tu hwnt i reolaeth y Brifysgol yn cynnwys (ond heb fod yn gyfyngedig i'r rhain) gweithredu diwydiannol, newidiadau sylweddol yn y cyllid am addysg uwch, tywydd garw iawn, trychineb naturiol, clefyd epidemig a phandemig (gan gynnwys Pandemig Covid 19), tân, anrhefn sifil, anrhefn wleidyddol, cyfyngiadau'r llywodraeth, cyfyngiadau awdurdod cyhoeddus, a phryder ynghylch trosglwyddo salwch difrifol.

32. Materion cyffredinol

32.1. Gwneir pob hysbysiad neu gyfathrebiad arall mewn perthynas â'r Amodau a Thelerau hyn yn ysgrifenedig a chaiff ei anfon atoch chi yn y cyfeiriad e-bost neu bost diwethaf a ddarparwyd gennych chi i'r Brifysgol, a thybir ei fod wedi'i gyflwyno'n briodol os caff ei anfon drwy e-bost, â llaw pan gaiff ei adael yn y cyfeiriad post hwnnw neu ei anfon drwy bost dosbarth cyntaf 48 awr ar ôl ei bostio i'r cyfeiriad hwnnw.

32.2. Mae eich contract gyda'r Brifysgol rhyngoch chi a'r Brifysgol, a'r ddau barti hyn yn unig all ei orfodi. Nid yw Deddf Contractau (Hawliau Trydydd Partïon) 1999 yn berthnasol.

32.3. Caiff y contract ei lywodraethu a'i ddehongli yn unol â chyfreithiau Cymru a Lloegr (fel y maent yn berthnasol yng Nghymru). Trwy dderbyn eich cynnig rydych yn cytuno i gydymffurfio â'r amodau a thelerau hyn ac i ufuddhau i awdurdodaeth anghyfyngedig llysoedd Cymru a Lloegr at ddiben datrys unrhyw anghydfod a all godi o'r contract neu mewn perthynas ag ef.

32.4. Os bernir bod unrhyw un o ddarpariaethau'r contract yn anghyfreithlon, yn ddi-rym a/neu yn anorfodadwy yn ei chyfanrwydd neu yn rhannol gan unrhyw lys neu awdurdod cymwys arall, bydd y contract yn parhau'n ddilys mewn perthynas â'r darpariaethau eraill a geir ynddo a/neu â gweddill y ddarpariaeth yr effeithir arni.

32.5. Os byddwch yn torri telerau ein contract ac os yw'r Brifysgol yn dewis peidio â mynnu eich bod yn cyflawni unrhyw un o'ch rhwymedigaethau o dan y contract, neu os nad ydym yn gorfodi ein hawliau yn eich erbyn, neu os ydym yn oedi wrth wneud hyn, nid yw hyn yn golygu ein bod wedi ildio ein hawliau yn eich erbyn ac ni fydd yn golygu nad oes rhaid i chi gydymffurfio â'r rhwymedigaethau hynny.

33. Rhagor o fanylion am hawliau defnyddwyr

33.1. Fel defnyddiwr bydd gennych hawliau cyfreithiol bob amser (gan gynnwys rhwymedïau statudol) mewn perthynas â gwasanaethau nad ydynt wedi'u cyflawni â sgil a gofal rhesymol, neu os bydd y deunyddiau a ddefnyddir gan y Brifysgol yn ddiffygiol neu heb fod yn unol â'r disgrifiad.

33.2. Am ragor o fanylion am eich hawliau cyfreithiol (gan gynnwys rhwymedïau statudol), gallwch ymweld â'ch Canolfan Cyngor Ar Bopeth leol, eich Swyddfa Safonau Masnach leol neu fynd i wefan yr Awdurdod Defnyddwyr a Marchnadoedd.

34. Ymholiadau

34.1. Dylech gyfeirio ymholiadau ynghylch dehongli'r amodau a thelerau hyn at sylw'r canlynol:

34.1.1. Cyn cofrestru: astudio@abertawe.ac.uk

34.1.2. Ar ôl i chi gofrestru: myunihub@abertawe.ac.uk

Diweddarwyd diwethaf fis Mawrth 2021